Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl424

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cadarnhau ymrwymiad ariannu i wasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 2 ym Mwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn unol â chofnod penderfyniad DLl363, cymeradwyodd CHTh ymgodiad i'r cyllid a roddir i wasanaethau cyfiawnder troseddol a ddarperir gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed o dan y cytundeb sy'n cael ei ddal gyda Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda.

Daw'r gwasanaeth presennol i ben ar 31 Mawrth 2027. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn ymgymryd ag ymarfer tendr i gychwyn ar`1 Ebrill 2027. Mae hyn angen cadarnhad gan bob partner ariannu mewn perthynas â bwriadau buddsoddi i mewn i wasanaeth Haen 2 ar ôl Ebrill 2027.

Cynigir bod CHTh yn cadarnhau'r buddsoddiad blynyddol parhaus o £256,450 o fis Ebrill 2027. Bydd Cyfarwyddwr Comisiynu CHTh yn gweithio gyda chydweithwyr BCA i ddatblygu'r fanyleb, cynorthwyo â'r ymarfer caffael a fydd yn cael ei arwain gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda a bod yn rhan o'r panel gwerthuso ar gyfer dyfarnu gwasanaeth.

Cynigir bod Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn parhau i anfonebu ar gostau gwirioneddol a bod y gyllideb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel bod y ddau barti'n gallu ymateb yn hyblyg i unrhyw faterion neu beryglon sy'n dod i'r amlwg yn ystod tymor y cytundeb newydd.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cadarnhau'r buddsoddiad blynyddol parhaus o £256,450 o 1 Ebrill 2027 er mwyn i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 2 ar gyfer ardal Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda barhau.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 3/12/2025**